# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

*Cyflwyniad*

**1 Trosolwg**

Mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf hon—

(a) yn rhagnodi bod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau ar y telerau a nodir yn Rhan 1, Pennod 1;

(b) yn creu corff corfforaethol newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC") ac yn rhoi swyddogaethau iddo (Rhan 2, ac Atodlenni 1 a 2);

(c) yn rhagnodi trefniadau llywodraethu ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a SAC, gan gynnwys trefniadau ar gyfer arolygiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan SAC, a darpariaethau yn ymwneud â'r berthynas rhwng y ddau (Rhan 2, Pennod 2 ac Atodlenni 1 a 2);

(d) yn rhagnodi sut y mae swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w harfer, ac yn gwneud darpariaeth i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru (Rhan 1, Pennod 2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** A. 1 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Cyflwyniad.